PET(4) SAR 08

# Y Pwyllgor Deisebau

## Ymgynghoriad ar ddeiseb P-04-432 **Atal Recriwtio i'r Fyddin** mewn Ysgolion

## Ymateb gan Dorian Williams

28 Mawrth 2013

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl William Powell AC

Diolch i chi am eich e-bost a ddaeth i law heddiw, 28.03.13.

Hoffwn ymateb fel Prifathro ac fel aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin.

Dyma farn Corff Llywodraethu'r Ysgol:

1. Nid yw'r Lluoedd Arfog yn cael cyfle i ddod mewn i Fro Myrddin i sgwrsio â disgyblion ac mae'r gwaharddiad yma mewn bodolaeth ers nifer o flynyddoedd.
2. Mae pob cais gan y Lluoedd Arfog i gynnig cefnogaeth o unrhyw fath, mewnbwn gyrfaol neu gweithgaredd allgyrsiol rhad ac am ddim yn cael ei wrthod, (ee diwrnod cadw'n heini ('assault course day out').
3. Yn yr achosion prin hynny pryd y mae disgybl wedi dewis ymuno â'r Lluoedd Arfog, nid yw'r ysgol yn rhwystro Swyddog Gyrfa Cymru a leolir yn yr ysgol rhag cynorthwyo'r unigolyn i dderbyn gwybodaeth perthnasol.

Diolch am y cyfle i rannu ein safiad.

Yn gywir

Dorian Williams
Prifathro